# CABINET CYNGOR GWYNEDD

**Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd**

**Dyddiad y cyfarfod: 20 Chwefror 2024**

**Aelod Cabinet: Cynghorydd Dyfrig Siencyn a Cynghorydd Nia Jeffreys**

**Swyddog Cyswllt: Sioned Williams**

**Rhif Cyswllt: 01286 679547**

**Pwnc: ADRODDIAD HERIO PERFFORMIAD AELODAU CABINET ECONOMI A CHYMUNED**

**Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

---

**Y RHESYMAU PAM FOD ANGEN PENDERFYNIAD**

Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad yn effeithiol

---

**1. CYFLWYNIAD**

1.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw diweddaru ein cyd aelodau ar yr hyn sydd wedi digwydd yn y meysydd yr ydym yn gyfrifol amdanynt fel yr Aelodau Cabinet Economi a Chymuned. Bydd hyn yn cynnwys amlinellu'r hyn sydd wedi digwydd yn erbyn addewidion Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28; lle mae'r mesurau perfformiad arni; a'r diweddaraf o ran cynlluniau arbedion a thoriadau.

**2. PROSIECTAU CYNLLUN CYNGOR GWYNEDD 2023-2028 (Blaenoriaethau Gwella)**

2.1 Mae'r tabl yn ATODIAD 1 yn rhoi diweddariad ar gynnydd tri prosiect blaenoriaeth Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28 dan adran **Gwynedd Lewyrchus - Cryfhau'r economi a chefnogi trigolion Gwynedd i ennill cyflogau teilwng:**

- **Adfywio Cymunedau a Chanol Trefi**
- **Creu'r amgylchiadau gorau posib yng Ngwynedd i fusnesau a mentrau cymunedol ffynnu, a chefnogi pobl Gwynedd mewn i waith**
- **Hyrwyddo Ein Diwylliant ac Economi Ymweld Cynaliadwy**

2.2 O'r wybodaeth yma, fe nodwch fod yr Adran wedi gwneud cynnydd da yn erbyn prif gerrig milltir y tri prosiect ym mlwyddyn gyntaf y Cynllun, 2023/24.

2.3 Hoffem dynnu sylw yn benodol at y grantiau mae Cyngor Gwynedd wedi ei gynnig i fusnesau ar draws Gwynedd y cyfeirir atynt yn yr ail brosiect. Drwy Raglen ARFOR (y cynllun Cymunedau Mentrus), Cronfa Trawsffurfio Trefi Llywodraeth Cymru a'r Gronfa Ffyniant Gyffredin gan

Llywodraeth Prydain (SPF) sefydlwyd pecyn o wahanol gronfeydd i helpu busnesau adfer, datblygu a gwella eiddo canol tref. Bu ymateb sylweddol i'r cyfle gyda 220 o geisiadau wedi eu derbyn yn y misoedd diwethaf ar draws y cronfeydd. Roedd gwerth y ceisiadau yn £13.26 miliwn ond ddim ond £3.46 miliwn oedd ar gael yn y gyllideb. Bu raid cau’r grantiau busnes bach yn gynt na’r disgwyl oherwydd yr ymateb a bu raid asesu’r ceisiadau mawr i’r Grant Gwella Eiddo a’r Gronfa Datblygu Busnes i adnabod y ceisiadau cryfaf. Canlyniad hyn oll ydi fod 83 o fusnesau wedi derbyn cynnig grant hyd yma, gwerth £3.22 miliwn. Bydd yr £154 mil sydd yn weddill wedi ei ymrwymo i geisiadau sydd eisoes mewn llaw o fewn yr wythnosau nesaf.

2.4 Byddwn yn cysylltu gyda’r busnesau hynny oedd yn aflwyddiannus i gynnig adborth a chyngor pellach. Byddwn hefyd yn anelu i gyfeirio unrhyw danwariant dros y misoedd nesaf i'r gronfa er mwyn gallu cefnogi mwy o’r busnesau.

2.5 Adroddwyd i Bwyllgor Craffu Addysg ac Economi 26 Ionawr ar y cynnydd a trafodwyd y risgiau amlwg i'r prosiect sydd wedi eu rhestru yn Atodiad 1. Ynghyd â’r galw uchel, mae’r amserlen afresymol o fyr ar gyfer gweithredu’r rhaglenni ariannu yn atal ymdrechion i gefnogi ardaloedd a sectorau nad ydynt yn gallu ymateb yn uniongyrchol. Yn ogystal, mae ansicrwydd sylweddol ynglŷn â maint a threfniadau gweinyddu unrhyw arian ar ôl Mawrth 2025 sydd yn llesteirio ein gallu i gynllunio i’r dyfodol

## 3. PERFFORMIAD GWASANAETHAU’R ADRAN

3.1 Mae Dashfwrdd Perfformiad yr Adran yn cael ei adolygu yn rheolaidd. Cafwyd cyfle i graffu perfformiad y gwahanol wasanaethau mewn cyfarfod arbennig 24 Ionawr 2024 a hoffem dynnu sylw Aelodau’r Cabinet i'r materion canlynol:

**Gwasanaeth Adnoddau Hamdden – Byw'n Iach, Parciau Gwledig Padarn a Glynllifon**

3.2 Adroddwyd tro diwethaf ar adferiad Cwmni Byw’n Iach yn darparu gwasanaethau. Rydym yn falch o adrodd fod yr adferiad yn parhau gyda cyfanswm ymweliadau cronnus hyd at diwedd Rhagfyr 2023/24 yn 707,136, sydd 95,474 yn well na 2022/23, er 154,224 yn is na 2019/20 (cyn COVID). Am y tro cyntaf ers ail agor yn dilyn cyfnod COVID mae ymweliadau misol ar gyfer Rhagfyr 2023 yn uwch na’r nifer ymweliadau Rhagfyr 2019. Bu y cwmni yn rhedeg ymgyrchodd newydd a all fod wedi cyfrannu at y cynnydd mewn niferoedd ac yn parhau gyda ymgyrchoedd drwy gydol mis Ionawr 2024.

3.3 Rydym yn parhau i weld niferoedd yn mynychu gwersi nofio a ffitrwydd yn cynyddu gyda niferoedd yn mynychu gwersi nofio yn perfformio’n well na’r cyfnod cyn COVID:

- Cyfanswm gwersi nofio cronnus hyd at diwedd Rhagfyr 2023/24 yn 29,214. 2,268 yn well na 2022/23 sydd 3,940 yn well na 2019/20 (cyn COVID).
- Debyd Uniongyrchol ffitrwydd i fyny i 3,319 hyd at diwedd Rhagfyr 2023 sydd 576 yn uwch na Tachwedd 2022/23 ond 171 yn is na Tachwedd 2019/20 (cyn COVID).

3.4 Er y cynnydd yma, mae incwm cronnus ymweliadau ysgolion hyd at diwedd Rhagfyr 2023/24 yn 11.7% yn llai o’i gymharu â incwm 2019/20 (cyn COVID). Mae’r gostyngiad yma mewn ymweliadau’r ysgolion yn creu pryder bydd rhai plant Gwynedd ddim yn cyrraedd safon nofio digonol. Mae Cwmni Byw’n Iach wedi cydweithio gyda’r Adran Addysg i ddarganfod beth ydi’r rhwystrau ac mae’n ymddangos mai cost trafnidiaeth i’r canolfannau yw’r rhwystr mwyaf.

3.5 Dros y misoedd diwethaf mae'r penseiri wedi bod yn paratoi ar gyfer cyflwyno ceisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau yn Parc Padarn fel rhan o'r cais Llewyrch o'r Llechi Cronfa Ffyniant Gyffredin (LUF). Mae'r gwelliannau yn cynnwys bloc toiledau newydd, gwaith adfer i adeilad Hafod Owen, A incline, strwythurau Chwarel Vivian a Sied y 'Fire Queen'. Yn ogystal mae'r cynlluniau yn cael eu paratoi i ail-ddylunio'r maes parcio.

3.6 Cafwyd penwythnos ofnadwy o brysur yn ffair Nadolig Glynllifon mis Tachwedd, ond bydd angen trafod trefniadau parcio gwell i'r dyfodol gyda'r trefnydd fel nad oes problemau traffig eto.

**Gwasanaethau Morwrol, Hafan Pwllheli a Doc Fictoria Caernarfon.**

**Morwrol - Traethau**

3.7 Mae werth nodi fod 90% o ymatebwyr holiadur boddhad cwsmer traethau Gwynedd o'r farn fod eu profiad o'n traethau yn 'Dda Iawn' (65%) neu'n 'Dda' (25%); cynnydd o 15% o'i gymharu â'r chwarter blaenorol. Dywedodd llawer fod y traethau'n hardd, yn lân a diogel, ond cofnodwyd pryderon am barcio dros nos ar draethau neu mewn meysydd parcio cyfagos. Mae'r Gwasanaeth yn cael cyngor cyfreithiol ar yr opsiynau sydd ar gael ac yn gobeithio dysgu o gynllun peilot Arosfan i weld os oes cyfle i fanteisio o'r sefyllfa.

3.8 Hoffem ddiweddaru'r Cabinet ar waith uwchraddio maes parcio traeth Dinas Dinlle. Fe gofiwch fod y cynllun wedi sicrhau grant o £300k o Gronfa Pethau Pwysig Llywodraeth Cymru. Prif nod y cynllun yw uwchraddio cyflwr ac ansawdd amgylcheddol y maes parcio a'r cyfleusterau cysylltiedig â chyflwyno trefniadau rheoli newydd. Mae'r cynllun yn cynnwys ail-wynebu'r maes parcio gyda deunydd priodol (grasscrete) a fydd yn cynnwys mannau parcio penodol, adeiladu lloches bws, gwella mannau picnic a safleoedd eistedd, atgyweirio waliau ymylol, adnewyddu rheiliau a gwaith tirweddu. Mae'r gwaith wedi dechrau ers mis Tachwedd 2023 a rhagwelir y bydd yr holl waith wedi ei gwblhau ar amser erbyn diwedd mis Mawrth 2024.

**Morwrol - Harbyrau**

3.9 Gwelwyd cynnydd o 4% yn y niferoedd o gwsmeriaid gyda chytundeb angorfa yn ein harbyrau eleni o'i gymharu ar flwyddyn flaenorol, ac mae'r rhagolygon ar gyfer 2024 yn galonogol iawn gyda nifer o ymholiadau wedi eu derbyn dros y misoedd diwethaf gan gwsmeriaid newydd sy'n awyddus i angori eu cychod yn harbyrau Gwynedd. Mae'r gwaith o archwilio ac adnewyddu prif gadwyni angorfeydd harbwr Porthmadog wedi cychwyn ers mis Rhagfyr 2023 ac mae ysgolion newydd wedi eu lleoli'n ddiweddar ar hyd wal y cei i wella hygyrchedd i gwsmeriaid. Rydym hefyd wedi penodi cwmni lleol i osod system TCC a gorsaf dywydd fodern yn harbwr Abermaw, a fydd o fudd mawr i'n swyddogion a chwsmeriaid. Mae'r gwaith sylweddol gan Network Rail ar adnewyddu'r draphont dros afon Mawddach wedi'i gwblhau ers mis Rhagfyr, a chwaraeodd yr Uned Forwrol ran annatod drwy symud angorfeydd ac ail leoli cychod cwsmeriaid i alluogi mynediad dirwystr ar y dŵr i'r contractwyr.

**Hafan Pwllheli a Doc Fictoria**

3.10 Gwelwyd gostyngiad yn nifer cwsmeriaid yn Hafan Pwllheli dros y chwarter diwethaf - lawr o 100% i 98%; colli 10 cwsmer. Mae rhan helaeth o rhai sydd wedi canslo wedi adrodd mai'r cynnydd mewn costau byw ydi'r rheswm a'u bod yn rhoi gorau i hwylio yn gyfan gwbl. Er fod y

rhestr aros yn gryf ar hyn o bryd, mae nifer wedi cysylltu i dynnu ei henwau oddi ar y rhestr. Bydd rhaid cadw llygaid ar y sefyllfa yma.

3.11 Er hyn, gwelwyd cynnydd dros y misoedd diwethaf mewn nifer cwsmeriaid yn cymryd angorfeydd yn Harbwr Allanol Pwllheli (94% llawn – 5 cwsmer newydd) gan ystyried fod rhan helaeth o gwsmeriaid yr Harbwr Allanol yn bobol lleol.

3.12 Ar hyn o bryd mae Doc Fictoria yn llawn ac mae rhestr aros am angorfeydd blynyddol. Mae’r gwaith o ychwanegu safle cawodydd a thoiledau arwahan i ferched yn symud ymlaen, gyda'r rhaglen waith i'w gwblhau cyn diwedd mis Mawrth.

**Archifau**

3.13 Ar gyfartaledd yn ystod y cyfnod o fis Hydref i fis Rhagfyr roedd 90% o ddefnyddwyr yn fodlon iawn gyda’r gwasanaeth, 3% o ddefnyddwyr yn fodlon, 3% o ddefnyddwyr nad oeddent yn fodlon nac anfodlon, a 4% nad oeddent yn fodlon. Roedd y mwyafrif o sylwadau a dderbyniwyd yn gadarnhaol, megis: "Mae'r staff i gyd yn gyfeillgar ac yn barod i helpu", "Excellent service". Ond o safbwynt rheiny nad oedd yn fodlon derbyniwyd sylwadau am y nifer o ddyddiau mae'r Archifdai ar agor.

**Amgueddfeydd a’r Celfyddydau**

3.14 Mae’r tîm celfyddydau cymunedol yn cynnal rhaglen o weithgareddau sydd yn cefnogi pobol a phlant i gael mynediad, mwynhau a phrofi’r celfyddydau, yn enwedig yn y maes iechyd, lles, addysg a thaclo unigrwydd. Dyrennir grantiau celfyddydol i grwpiau cymunedol a gwirfoddol i gynnal gweithgareddau er mwyn cefnogi cyfleoedd celfyddydol i bawb; grantiau Noson Allan; grantiau cronfa diwylliant SPF. Mae'r gwaith sydd ar y gweill ar hyn o bryd yn cynnwys Sgwrs a Chân i gefnogi pobl hŷn gyda Chymdeithas Tai Cynefin ym Mhorthmadog, Bala a Thremadog; Llwybrau Celf i blant yn Aberdyfi, Llanbedrog a Bangor; Crefft er Lles i oedolion; gweithdai celf i blant yn Porthi Dre. Cydweithir gydag amryw o bartneriaid e.e. Gwasanaeth Ieuenctid, Galeri, Cwmni Gwilym Mathias, Theatr Derek Williams. Trefnir arddangosfeydd hefyd yn Oriel Ysbyty Gwynedd.

3.15 Cyfrennir at gynllun Cyfuno Storiel a gyllidir gan grant Llywodraeth Cymru i gefnogi cymunedau o angen. Hyd yma mae 9 partner; tua 18 o weithgareddau gydag oddeutu 634 wedi cymryd rhan a phecynnau plant i Porthi dre a phecynnau prysur gyda'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd wedi eu rhannu.

3.16 Mae'r galw am grantiau celfyddydol ar gynnydd gan ein cymunedau. Mae 35 mudiad wedi cael cynnig grant o'r gronfa Grantiau Cymunedol chwarter diwethaf a 13 o’r grant Noson Allan.

3.17 Mae gwaith i uwchraddio Amgueddfa Lloyd George wedi cael ei gomisiynu. Bydd £360,000 yn cael ei fuddsoddi ar brosiect gyda chyfraniad grant SPF o £250,000 cyn diwedd mis Rhagfyr 2024.

3.18 Mae 2 o'r 3 gofod llogi yn Storiel bellach wedi ail agor ac ar gael i'w hyrwyddo a'u defnyddio. Mae'r nifer sy’n ymweld ac yn ymgysylltu’n ddigidol gyda Storiel wedi cynyddu. Gwelwyd fod cyfanswm ar gyfer mis Rhagfyr 2023 wedi cynyddu tua 300 o’i gymharu â 2022. Erbyn Mawrth 2024 bydd prosiectau fel Trawsnewid Trefi yn Storiel i wella ei phresenoldeb a'i gwelededd yn y ddinas yn dwyn ffrwyth ac yn cyfrannu at ddenu mwy o ddefnyddwyr ac ymwelwyr.

**Llyfrgelloedd**

3.19 Cynhelir arolygon bodlonrwydd yn rheolaidd gan samplo mewn gwahanol lyfrgelloedd. Cynhaliwyd Arolwg llawn holl safleoedd yn mis Tachwedd gan dderbyn 656 ymateb. Adroddodd 97% eu bod yn hollol fodlon gyda'r gwasanaeth a derbyniwyd sylwadau cadarnhaol iawn gan ddefnyddwyr yn dangos pa mor bwysig yw'r Llyfrgell i bobl Gwynedd. Ond derbyniwyd 15 cwyn bod y lifft allan o ddefnydd yn Llyfrgell Bangor. 'The lift has been out of action for years reducing access to disabled users' a 'I cannot get down with pram to children's area'. Rydym yn falch o adrodd fod y gwaith yma bellach wedi cael ei raglennu.

3.20 Mae perfformiad benthyciadau Ebrill-Rhagfyr eleni yn uwch na ffigyrau llynedd gyda 218,924 o fenthyciadau llyfrau o'u cymharu a 218,262 yn 2022/23. Mae cynnydd hefyd yn ffigyrau defnyddwyr actif sef 52,568 o fenthycwyr dros y 9 mis diwethaf o'u cymharu a 48,518 yn y cyfnod cyfatebol yn 2022/23. Yn ogystal, mae ffigyrau defnydd e-bapurau newydd i'w gweld yn cynyddu eto ers newid o PressReader i ePress yn ogystal a dod ag arbedion ariannol wrth newid cyflenwr.

3.21 Rydym yn hynod o falch fod Symbolau Lluniau Cyfathrebu '*Boardmaker*', sy'n adnodd i deuluoedd plant nad ydynt yn gallu cyfathrebu'n llafar, ar gael bellach mewn tair llyfrgell yng Ngwynedd.

3.22 Mae'r gwasanaeth yn dal i ddosbarthu cardiau SIM i gefnogi mynediad i'r rhyngrwyd i'r sawl sydd eu hangen. Drwy gydweithio gyda Uned Cynhwysiant a Threchu Tlodi'r Cyngor ac hefyd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, dosbarthwyd cardiau SIM i gleientiaid drwy'r Swyddog Profiadau Cleifion, a ddywedodd - '...that is absolutely fantastic. I really cannot thank you enough, it will make such a difference to our patients. A couple more have already been identified by our OTs who will benefit as they have been unable to engage so far due to lack of internet access!'

3.23 Mae'r Gwasanaeth yn y broses o ail-gychwyn cynllun Petha (Llyfrgell y Pethau) yn Llyfrgelloedd Bethesda a Phenygroes, ac yn derbyn cefnogaeth Benthyg Cymru a Chyngor Gwynedd.

**Neuadd Dwyfor**

3.24 Mae'r gyfradd bodlonrwydd yn parhau yn eithaf uchel, gyda chyfradd y tri mis diwethaf Hydref-Rhagfyr yn 97%, 98% a 94%. Mae mwyafrif y sylwadau yn canmol y staff, y gwelliannau i'r adeilad a'r rhaglen. Ond mae'r gwasanaeth yn ceisio ymateb i sylwadau llai ffafriol ac yn ymwybodol bod angen cwblhau nifer o faterion e.e. gosod arwyddion a hysbysfyrddau ar y tu allan i hysbysebu ffilmiau. Rydym yn aros i Eiddo gwblhau'r gwaith ac i drefniadaeth prosiect Gwedd 1 ddod i'w derfyn.

**Gwasanaethau Economi ac Adfywio**

3.25 Mae'r gwasanaethau Datblygu'r Economi, Twristiaeth, Adfywio a Cefnogi Cymunedau wedi canolbwyntio eu hymdrechion dros y misoedd diwethaf ar weithredu'r prosiectau blaenoriaeth sydd wedi cael eu hamlinellu yn Atodiad 1. Mae perfformiad y gwasanaethau hyn felly wedi cael ei adrodd yno.

## 4. SEFYLLFA ARIANNOL

4.1 Mae gan yr Adran gynllun oedd i fod i greu arbedion o £100,000 rhwng 2022/23 – 2024/25, sef cynllun ail fodelu Neuadd Dwyfor. Bu i'r argyfwng Covid-19 arwain at oediad mewn gwireddu gwaith datblygu yn y Neuadd, ond wedi ei gwblhau bellach. Er hynny, mae'n amlwg fod yr argyfwng a'r cynnydd mewn costau byw, ynghyd â ffactorau eraill fel effaith ffurf newydd o wylio ffilmiau, gyda nifer fawr o bobl yn disgwyl i ffilmiau gael eu rhyddhau ar y we /teledu, yn codi pryder am ein gallu i weithredu'r arbedion yn llawn. Ar hyn o bryd, mae'n anodd i weld effaith hir dymor ar niferoedd fydd yn mynychu'r Neuadd.

4.2 Mae un cynllun arbedion yn parhau o flynyddoedd blaenorol (cyfanswm o £45,000), sy'n amodol ar ganiatâd i godi ffioedd parcio ar y safle. Yn ystod 2023/24, sicrhawyd pecyn ariannol ar gyfer gwneud gwelliannau i'r safle a disgwylir i'r gwaith gael ei gwblhau yn Gwanwyn 2024. Mae pryderon wedi eu lleisio yn lleol ynghylch cyflwyno ffioedd parcio, a bydd trafodaethau lleol yn parhau ynghylch trefniadau rheoli'r safle i'r dyfodol, gan gynnwys ffioedd sydd i'w cyflwyno.

4.3 Gan eithrio arbedion cynlluniau hanesyddol a nodir yn 4.1 a 4.2, mae cynlluniau cyfredol gwerth £242,180 ar gyfer 2023/24 ac £41,130 ar gyfer 2024/25 wedi eu rhaglennu, ac mae'r cyfan wedi eu gwireddu neu ar drac i'w gyflawni yn amserol.

4.4 Mae cynlluniau arbedion newydd yr Adran yn cael eu cyflwyno mewn eitem ar wahân i'r cyfarfod yma o'r Cabinet, gyda cymeradwyaeth terfynol ohonynt yn Cyngor Llawn ar y 7fed o Fawrth 2024. Adroddir ar ddatblygiadau y cynlluniau yma maes o law.

4.5 Adroddwyd ar berfformiad ariannol yr Adran i'r Cabinet 23 Ionawr 2024, gyda rhagolygon y bydd yr Adran yn gorwario erbyn diwedd y flwyddyn ariannol 2023/24. Mae'r gorwariant yn bennaf ar ddiffyg incwm yn Neuadd Dwyfor a Storiel, oherwydd y rhesymau nodir yn 4.1, ynghyd â costau uwch rhedeg eiddo Byw'n Iach. Byddwn yn parhau i adolygu'r meysydd yn agos yn y flwyddyn ariannol newydd, gan obeithio adnabod cyfleon i weithredu arbedion lle'n bosib. Mae cyfuniad o danwariant ar benawdau eraill ynghyd â defnydd o gronfeydd wrth gefn yn lleihau'r gorwariant a adroddir i £59k.

## 5. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

5.1 Byddwn yn parhau i fonitro perfformiad y gwahanol wasanaethau yn fisol ac mae cyfarfod arbennig o'r Tim Rheoli Adran wedi cael ei drefnu i wneud hyn ar gyfer 19 Mawrth 2024, gyda cynrychiolwyr o'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi yn bresennol.

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Y Swyddog Monitro:**

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Pennaeth Cyllid:**

"Rwyf yn fodlon fod yr adroddiad yn adlewyrchiad teg o sefyllfa ariannol yr Adran Economi a Chymuned."

**ATODIAD 1**

| ADRODDIAD PERFFORMIAD PROSIECT BLAENORIAETH ADRAN ECONOMI A CHYMUNED | |
|---|---|
| **Blaenoriaeth Gwella:** | **Gwynedd Lewyrchus** |
| **Prosiect:** | **Adfywio Cymunedau a Chanol Trefi** |
| **Adroddiad Arweinydd Prosiect:** | **Llyr B Jones** |
| **Dyddiad:** | **25 Ionawr 2024** |
| **Amcan y prosiect:** | Byddwn yn sefydlu Fframwaith Adfywio drwy ddatblygu Cynlluniau Adfywio Lleol ar gyfer 13 dalgylch ar draws y sir ac yn sicrhau trefniadau traws-adrannol o fewn y Cyngor er mwyn sicrhau fod rhaglenni gwaith yn cyd-blethu a rhannu gwybodaeth gyda chymunedau drwy barhau gyda'r gwaith ymgysylltu. Bydd cynlluniau gweithredu ar gyfer Canol Tref/ Dinas yn cael eu paratoi ar gyfer trefi unigol. |

**1. Beth sydd wedi ei gyflawni ers y cyfarfod diwethaf?**

- Mae Cynlluniau Adfywio Lleol drafft wedi eu paratoi ar gyfer 13 dalgylch ac wedi eu cylchredeg i Adrannau perthnasol o'r Cyngor
- Mae cyfarfod cyntaf Grwp Traws-Adrannol Fframwaith Adfywio wedi ei gynnal, a chylch gorchwyl wedi ei gytuno
- Derbyniwyd llythyr cynnig grant £1.8m o arian SPF ar gyfer Prosiect Gwella Profiad Canol Trefi Gwynedd
- Mae Grwp Prosiect Gwella Profiad Canol Trefi wedi ei sefydlu yn cynnwys swyddogion o Adrannau perthnasol ar gyfer cyd-lynu a gweithredu'r prosiect
- Mae Cynlluniau Canol Tref Bangor a Chaernarfon wedi eu cwblhau, a chynllun Canol Tref Porthmadog wedi ei gomisiynu (gyda grant Traws Newid Trefi Llywodraeth Cymru)
- Mae grant wedi ei sicrhau ar gyfer paratoi cynlluniau canol tref ar gyfer Pwllheli, Bala a Dolgellau
- Cynhaliwyd cyfarfod o Grwp Eiddo Gwag y Cyngor sydd yn adolygu rhestr blaenoriaeth eiddo gwag

**2. Y camau nesaf**

- Gwahoddir Adrannau i gyflwyno sylwadau / gwybodaeth ar y Cynlluniau Adfywio Lleol erbyn 8fed Chwefror
- Byddwn yn paratoi cyflwyniadau I'r Fforymau Ardal er mwyn briffio'r Aelodau Lleol
- Byddwn yn trefnu cyfres o weithdai yn y gymunedau lleol er mwyn trafod y Cynlluniau Adfywio Lleol; a threfniadau ar gyfer eu cyd-lynu a monitro
- Byddwn yn bwrw ymlaen i weithredu a chwblhau Prosiect Gwella Profiad Canol Trefi yn ystod cyfnod 2024/5
- Byddwn yn comisiynu Cynlluniau Canol Tref ar gyfer Pwllheli, Bala a Dolgellau
- Byddwn yn cyflwyno diweddariad gan y Grwp Eiddo Gwag y Cyngor I'r Tim Arweinyddiaeth

**3. Risgiau**

- Rhagwelir y bydd trefniadau cyd-lynu a monitro Cynlluniau Adfywio Lleol yn amrywio o ardal i ardal, gyda rhai ardaloedd angen mwy o gefnogaeth gan y Cyngor
- Amserlen ar gyfer gweithredu Prosiect Gwella Profiad Canol Trefi – angen ei gwblhau erbyn Rhagfyr 2024 yn unol a gofynion arian SPF
- Angen hawlio grantiau Trawsnewid Trefi erbyn diwedd Mawrth 2024
- Ansicrwydd am grantiau refeniw Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru ar gyfer paratoi cynlluniau canol tref yn ystod 2024/25

**4. Amserlen**

- Byddwn yn cynnig diweddariadau ar y Fframwaith Adfywio (a'r Cynlluniau Adfywio Lleol drafft) i'r Aelodau lleol drwy Fforymau Ardal

- Fforwm Bangor / Ogwen : 28/02/24
- Fforwm Ardal Gwyrfai : 29/02/24
- Fforwm Ardal Meirionnydd : 05/03/24
- Pwyllgor Ardal Dwyfor : 11/03/24

- Byddwn yn cynnal cyfarfodydd gyda sefydliadau lleol ymhob un o'r 13 ardal i drafod y cynlluniau drafft, a threfniadau ar gyfer cydweithio yn ystod Mawrth / Ebrill 2024
- Bwriedir cyhoeddi fersiynau diwygiedig o'r Cynlluniau Adfywio Lleol yn ystod mis Ebrill / Mai 2024.

| ADRODDIAD PERFFORMIAD PROSIECT BLAENORIAETH ADRAN ECONOMI A CHYMUNED | |
|---|---|
| **Blaenoriaeth Gwella:** | **Gwynedd Lewyrchus** |
| **Prosiect:** | **Creu'r amgylchiadau gorau posib yng Ngwynedd i fusnesau a mentrau cymunedol ffynnu, a chefnogi pobl Gwynedd mewn i waith** |
| **Adroddiad Arweinydd Prosiect:** | **Sioned Williams/Dylan Griffiths** |
| **Dyddiad:** | **25 Ionawr 2024** |
| **Amcan y prosiect:** | Byddwn yn cefnogi busnesau a mentrau cymunedol Gwynedd i ffynnu mewn sawl ffordd megis datblygu cynnyrch a chael mynediad i farchnadoedd newydd, helpu mentrau i arbed arian drwy leihau gwastraff a defnyddio technoleg yn well, cefnogi busnesau yng Ngwynedd i fasnachu gyda'i gilydd a blaenoriaethu helpu mentrau sydd yn ymrwymo i dalu 'cyflog byw gwirioneddol' i'w gweithwyr. Byddwn yn hybu busnesau i wneud y mwyaf o'r Gymraeg, yn datblygu mwy o unedau busnes i'w gosod ar rent, ac yn ymdrechu i sicrhau fod prosiectau Cynllun Twf Gogledd Cymru yn elwa pobl Gwynedd. Byddwn hefyd yn helpu pobl Gwynedd i gyflawni eu potensial a chefnogi y rhai sydd wedi eu heithrio o'r farchnad lafur i ddychwelyd i waith a gweithio gyda chyflogwyr i'w helpu i sicrhau gweithwyr digonol. |

## 1. Beth sydd wedi ei gyflawni ers y cyfarfod diwethaf?

Cefnogi Busnes a Menter

- Mae 21 o fusnesau wedi derbyn cynigion ariannol gwerth cyfanswm o £956k drwy'r cynllun Cymunedau Mentrus (ARFOR). Rhagwelir bydd y buddsoddiad yn arwain at greu dros 50 o swyddi.
- Mae Cronfa Her ARFOR yn cynnig cymorth i ymchwilio a threialu ddatrysiadau arloesol i heriau lleol a rhanbarthol gan ddysgu am y cysylltiad rhwng yr economi a'r iaith. Mae 146 o ddatganiadau o ddiddordeb wedi ei derbyn ar draws y rhanbarth ARFOR, gyda 59 o rhain o Wynedd. Mae 54 o fudiadau o Wynedd wedi mynychu'r Gweithdai Her sy'n rhan o'r prosiect ac mae 8 mudiad o Wynedd wedi cyflwyno ceisiadau i'r Gronfa sydd gwerth £668k.
- Mae 24 o fusnesau wedi derbyn cyfanswm o £340k drwy 'grantiau bach' o'r Cronfeydd Datblygu Busnes lansiwyd mis Awst. Roedd y nifer o geisiadau am grant bach mor fawr roedd yn rhaid cau'r drefn ymgeisio 4 wythnos wedi iddo agor. Mae £150k o arian ychwanegol wedi ei sicrhau i gefnogi rhai o'r 22 o fusnesau sydd ar restr aros.
- Mae'r broses dyfarnu ar gyfer 'grantiau mawr' (dros £25k) o'r Cronfeydd Datblygu Busnes wedi ei gwblhau. Roedd busnesau yn gorfod cystadlu ar gyfer grant mawr ac

derbyniwyd 57 o geisiadau yn gofyn am £5.09M o gymorth cyn y dyddiad cau ganol Medi. Mewn ymateb i'r galw mawr, targedwyd arian ychwanegol ac o ganlyniad rydym wedi gallu cynnig £989k i 10 o fusnesau

- Mae pob busnes sy'n derbyn arian yn gofod ymrwymo i dalu'r cyflog byw gwirioneddol i'w staff ac i adolygu eu defnydd o'r Gymraeg. O ganlyniad, mae 79 o fusnesau o Wynedd wedi cwblhau asesiad iaith Comisiynydd y Gymraeg - gyda 12 wedi mynd ymlaen i dderbyn achrediad 'Cynnig Cymraeg' y Comisiynydd.
- Dylid nodi fod yr Adran hefyd wedi sicrhau £930k yn ychwanegol o gymorth yn y cyfnod i wella 28 o adeiladau yng nghanol trefi Gwynedd, fydd – yn ei dro – o fudd i fusnesau lleol.
- Mae'r cynllun Ailwefru wedi ei gomisiynu gan y Cyngor i helpu busnesau lleol adolygu eu gweithgaredd a pharatoi i'r dyfodol. Eisoes mae 32 o fusnesau wedi cofrestru i dderbyn cymorth o'r cynllun.
- Mae'r Adran wedi ariannu'r cynllun Catalyddion Cymunedol ar y cyd gyda'r Adran Oedolion i annog pobl lleol i gychwyn busnesau bach yn y maes darparu gofal cartref. Mae 16 o bobl lleol eisoes wedi ymuno ac maent wrthi'n gweithio tuag at sefydlu menter gofal.
- Mae'r Adran wedi comisiynu'r cynllun i ddarparu cymorth a chyngor i fusnesau lleol wneud gwell defnydd o dechnoleg i leihau eu costau ac / neu cynyddu eu gwerthiant. Bydd dros 100 o fusnesau lleol yn elwa o'r cynllun erbyn Mawrth 2025.
- Mae caniatâd cynllunio ar gyfer codi unedau gwaith newydd gan y Cyngor yn Minffordd wedi ei gadarnhau. Dyluniadau manwl a dogfennaeth tendro wedi eu paratoi a'r drefn penodi ar gychwyn. Llywodraeth Cymru wedi eu darbwyllo i dod yn bartner yn y cynllun a rhannu'r gost.
- Rydym wedi cefnogi cynlluniau Cais Twf Gogledd Cymru, gan roi sylw arbennig i'r cynlluniau sydd yn cynnig y budd mwyaf i Wynedd yn y Rhaglen Ddigidol, Rhaglen Ynni a'r Rhaglen Twristiaeth Bwyd Amaeth. Ers y cyfarfod diwethaf rydym wedi cefnogi Grŵp Llandrillo Menai gyda'u cynlluniau ar gyfer datblygu Canolfan Fwyd yng Nglynllifon ac mae Zip World wedi derbyn cynnig amlinellol am arian o'r Cais Twf.
- Rhaglen ymweliadau'r Aelodau Cabinet i fusnesau yn parhau, gyda cyfanswm o 5 o ymweliadau i fusnesau amlwg yng Ngwynedd wedi eu trefnu ar gyfer Aelodau Cabinet a 5 eisoes wedi eu cynnal yn 2023/24.
- Rhaglen y sesiynau galw heibio i fusnesau lleol o fewn cymunedau wedi eu trefnu a 3 wedi eu cynnal ers y cyfarfod diwethaf, ynghyd â chlinig ariannu ar y cyd gyda Banc Datblygu Cymru

Cefnogi pobl Gwynedd i ddychwelyd i waith a chyflawni eu potensial

- Mae'r rhaglen Llwyddo'n Lleol bellach ar waith yn llawn gan dargedu pobl ifanc 11-35 i gynyddu ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd sydd ar gael yn rhanbarth ARFOR o ran swyddi; mentergarwch a cyfleoedd i ddychwelyd i'w cymuned cynhenid.
- Mae 101 o drigolion lleol oedd yn segur wedi sicrhau swydd yn dilyn derbyn cefnogaeth tîm Gwaith Gwynedd yn ystod y flwyddyn – cynnydd o 49.

- 180 o yn fwy o drigolion Gwynedd wedi cofrestru i dderbyn cefnogaeth Gwaith Gwynedd yn y cyfnod. (cyfanswm o 238 yn y flwyddyn ariannol)
- Saith o ffeiriau swyddi wedi ei trefnu lleded y sir ar gyfer Chwefror i Ebrill 2024. 55 cyflogwyr wedi cofrestru i fynychu.
- Gweithgaredd newydd i gefnogi trigolion gynyddu eu sgiliau – a thrwy hynny eu enillion – wedi cychwyn gyda 28 eisoes wedi cofrestru am gefnogaeth.
- Rhaglen waith newydd - ar y cyd gyda'r Adran Addysg a'r Adran Oedolion i wella sgiliau ac atal segurdod – ar waith gan ddefnyddio £700k o arian SPF.

## 2. Y camau nesaf

Y prif weithgaredd ar gyfer y cyfnod nesaf fydd:

- Rhoi'r drefn rheoli'r cynigion grant, hawliadau a monitro ar waith yn ystod mis Ionawr 2024
- Cynnal ymgyrch hyrwyddo i'r cynlluniau cymorth newydd rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2024 gan ganolbwyntio ar ardaloedd nad ydynt yn elwa'n arferol.
- Cydweithio gyda partneriaid eraill sydd wedi derbyn arian SPF i gefnogi busnesau i'w hannog i roi sylw i fusnesau ac ardaloedd yng Ngwynedd sydd ddim yn elwa'n arferol.
- Sefydlu ymgyrch hyrwyddo gwasanaeth newydd Gwaith Gwynedd yn ystod Ch.3 2023/24
- Penodi adeiladwr ar gyfer unedau gwaith newydd y Cyngor yn Minffordd yn ystod Ch.1 2024/25

## 3. Risgiau

- Roedd ymateb busnesau a mentrau Gwynedd i'r cronfeydd SPF ac ARFOR yn sylweddol uwch na'r cyllid ar gael. Gyda ceisiadau dros £11M a dim ond £2M ar gael, mae'n anorfod felly fod y mwyafrif o fusnesau am gael eu siomi. Bydd ceisiadau da yn gorfod cael eu gwrthod gan nad oes digon o arian ar gael i ymateb 'r galw.
- Mae'r cronfeydd wedi amlygu'r amrywiaeth yng ngallu busnesau o fewn rhai sectorau ac ardaloedd i ymateb i gyfleoedd ariannu.
- Ynghyd â'r galw uchel, mae'r amserlen afresymol o fyr ar gyfer gweithredu'r rhaglenni ariannu yn atal ymdrechion i gefnogi ardaloedd a sectorau nad ydynt yn gallu ymateb yn unionsyth.
- Mae'r amserlen byr ar gyfer gweithredu'r rhaglenni ariannol yn golygu fod yn rhaid i'r Adran recriwtio nifer fawr o swyddi dros-dro. Gyda'r rhaglenni i gyd yn dod i ben ar yr un pryd yn Mawrth 2025, bydd 12 o swyddi dan fygythiad o fewn yr Adran. Bydd y nifer llawer iawn yn fwy ar draws sefydliadau yn y sir
- Mae ansicrwydd sylweddol ynglŷn â maint a threfniadau gweinyddu unrhyw arian ar ôl Mawrth 2025 sydd yn llesteirio ein gallu i gynllunio i'r dyfodol

- Mae'r wasgfa ar gyllidebau gyhoeddus yn ehangach yn cynyddu'r pwysau. Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn cwtogi ar y cyllid maent yn darparu i Awdurdodau Lleol o fewn meysydd megis cymorth i'r di-waith.
- Mae buddsoddiadau sylweddol yn y sir, yn cynnwys cynlluniau'r Cynllun Twf, yn agored i risg ychwanegol yn sgil unrhyw newid ym mholisïau ac ymrwymiadau hir dymor Llywodraeth Cymru a Llywodraeth Prydain.

**4. Amserlen**

Gweler Uchod

| ADRODDIAD PERFFORMIAD PROSIECT BLAENORIAETH ADRAN ECONOMI A CHYMUNED | |
|---|---|
| **Blaenoriaeth Gwella:** | **Gwynedd Lewyrchus** |
| **Prosiect:** | **Hyrwyddo Ein Diwylliant ac Economi Ymweld Cynaliadwy** |
| **Adroddiad Arweinydd Prosiect:** | **Roland Evans** |
| **Dyddiad:** | **25 Ionawr 2024** |
| **Amcan y prosiect:** | Byddwn yn cymryd cyfres o gamau er mwyn hyrwyddo ein diwylliant a chreu economi ymweld cynaliadwy:<br><br>➔ Bydd Cynllun Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri, a luniwyd ar y cyd gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, yn cael ei lansio yng ngwanwyn 2023. Bydd prif bartneriaid a rhanddeiliaid yn cydweithio i gyflawni'r hyn fydd yn y Cynllun gan sefydlu Partneriaeth Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri.<br>➔ Byddwn yn sicrhau llewyrch o'r dynodiad Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru a sicrhau adnoddau i gyflawni Cynllun Gweithredu Safle Treftadaeth y Byd.<br>➔ Byddwn yn Rheoli Cartrefi Modur sy'n ymweld â Gwynedd drwy beilota datblygu hyd at 6 safle pwrpasol i gartrefi modur aros dros nos.<br>➔ Bydd cynnal Eisteddfod Genedlaethol 2023 yng Ngwynedd yn llwyfan i ddathlu ein diwylliant a'n hiaith, y celfyddydau a chwaraeon a sicrhau bod yr Eisteddfod yn gadael gwaddol gadarnhaol yng nghymunedau Gwynedd. |

**1. Cynnydd ers y cyfarfod diwethaf, mis Medi 2023:**

<u>Cynllun Economi Ymweld Cynaliadwy</u>

- Cyfarfodydd wedi eu cynnal gyda'r Parc Cenedlaethol i gytuno ar y model gweithredol orau i sicrhau perchnogaeth ac i weithredu'n effeithiol.
- Mesuryddion drafft mewn lle.
- Strwythur drafft wedi ei drafod ac angen ei symleiddio / addasu cyn ei weithredu – yn enwedig yn sgil arbedion arfaethedig i'r Gwasanaeth Twristiaeth.
- Cynllun gweithredu drafft mewn lle.

<u>Llewyrch o'r dynodiad Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi</u>

- Trefniadau gweithredol wedi sefydlu ar gyfer prosiect Ffyniant Bro – Llewyrch o'r Llechi
- Cyfarfod Blynyddol hybrid Llechi Cymru wedi ei gynnal yng Nghell B, Blaenau Ffestiniog ar 16 Tachwedd 2023 gyda nifer o fynychwyr lleol a siaradwyr.
- Gwaith datblygol ar gais LleCHI 2 i Gronfa Treftadaeth y Loteri yn parhau a chyfarfod cadarnhaol wedi ei gynnal efo'r Gronfa ar 14 Rhagfyr 2023 a chaniatâd i fwrw ymlaen i gyflwyno cais Rownd 2.
- Cydlynydd Safleoedd Treftadaeth y Byd Gogledd Orllewin Cymru yn weithredol.

<u>Cartrefi Modur</u>

- Safle Criccieth yn weithredol – ond materion fandaliaeth wedi codi ac wedi amharu ar unrhyw sylw sylweddol i'r gofod yno.
- Datrysiad wedi bod o ran cyfleustodau a gwaith bellach yn mynd rhagddi yn y 3 safle arall – Caernarfon, Pwllheli a Llanberis, ond gall fod costau uwch ym Mhwllheli yn sgil y pellter i gysylltu efo'r cyflenwad dwr.

<u>Gwaddol i'r Eisteddfod</u>

- Cronfeydd SPF wedi bod yn llwyddiannus wrth ddenu ceisiadau.
- Llawer o'r prosiectau yn gofyn i hawlio mewn mwy nac un rhan yn ystod y prosiect felly trefniadau'n cael eu llunio i hwyluso hyn.
- Mae Rownd 1 digwyddiadau wedi cyrraedd y cam talu - gwerth £31,500.
- Mae gwerth £30,476.79 o geisiadau Rownd 2 Digwyddiadau hefyd wedi cyrraedd y cam talu.

**2. Y camau nesaf**

<u>Cynllun Economi Ymweld Cynaliadwy</u>

- Sefydlu'r strwythur gweithredu i gynnwys llais i bartneriaid erbyn Chwefror 2024.
- Gweithredu'r Cynllun yn syth.
- Gweithredu cynlluniau a gweithgareddau a gyllidir trwy SPF erbyn 31 Rhagfyr 2024.

<u>Llewyrch o'r dynodiad Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi</u>

- Sicrhau cyllid cyfatebol gan bartneriaid allweddol cyn diwedd Mawrth 2024 ar gyfer y cais Loteri Treftadaeth.
- Cyflwyno cais Rownd 2 erbyn diwedd Chwefror 2024.
- Rheoli a gweithredu prosiectau Ffyniant Bro erbyn Mawrth 2025.
- Rheoli a gweithredu prosiectau Ffyniant Gyffredin erbyn Rhagfyr 2024.
- Parhau i ymgysylltu gyda chymunedau a busnesau'r Ardal
- Cyhoeddi Adroddiad Blynyddol erbyn 31 Mawrth 2024.

<u>Cartrefi Modur</u>

- Cwblhau gosod y 3 Aros-fan newydd yn Llanberis, Caernarfon a Phwllheli er mwyn lansio'r 4 safle cyn Pasg 2024.
- Sicrhau bod yr App Parcio Gwynedd yn derbyn taliadau ar gyfer Aros-fan cyn Pasg 2024.
- Elfennau gorfodaeth fel rhan o'r pecyn cyflawn angen eu gweithredu erbyn Pasg 2024.

<u>Gwaddol i'r Eisteddfod</u>

- Cychwyn ar y gwaith o adolygu'r angen am gynllun diwylliant i Wynedd yn ddibynnol ar gyhoeddi cynllun gan Lywodraeth Cymru erbyn Mawrth 2024.
- Cynnal digwyddiad i ddathlu diwylliant a chelfyddydau Gwynedd trwy Gwynedd Creadigol fis Chwefror 2024.
- Ystyried agor unrhyw rowndiau cyllidol pellach ar gyfer SPF neu cronfa Grantiau Strategol i'r Celfyddydau pan fydd y gyllideb yn wybyddus erbyn Ebrill 2024.

**1. Risgiau**

<u>Cynllun Economi Ymweld Cynaliadwy</u>

- Pryder gan rai am ddiffyg cynnydd mewn gweithredu yn risg i berchnogaeth a gweithrediad.
- Datblygu strwythur heglog neu gymhleth yn creu gwaith gweinyddol anghynaladwy.

Llewyrch o’r dynodiad Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi

- Peidio sicrhau cyllid cyfatebol gan bartneriaid.
- Methu yng ngham Rownd 2 oherwydd y cynnydd mewn costau gweithredu.
- Rhai datblygiadau sylweddol yn gallu peri risg i’r dynodiad – ond trefniadau cynllunio cadarn mewn lle.

Cartrefi Modur

- Methu cyflawni erbyn dechrau tymor 2024.
- Angen i wario arian Llywodraeth Cymru o fewn i amserlen dynn (diwedd Mawrth 2024).
- Dysgu gwersi o fandaliaeth neu agweddau gwrth-gymdeithasol yn lleol.

Gwaddol i’r Eisteddfod

- Methiant rhai prosiectau i weithredu eu gweithgaredd o fewn amserlen dynn SPF (Diwedd Medi 2024).
- Yr angen i ddatblygu Cynllun Diwylliant i Wynedd – ond risg o fethu gweithredu yn sgil yr hinsawdd ariannol heriol eithriadol.

**2. Amserlen**

- Gweithredu yn unol â amserlenni tynn cyllidwyr yn ystod 2024 a 2025 a’r camau nesaf a welir yn 2.